Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

29.9.17

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Gwefan

Rydym yn y broses o greu gwefan newydd i'r ysgol. Hoffem gynnwys busnesau lleol yn rhan o'r broses, ac felly rydym yn awyddus i ofyn i fusnesau neu gwmnïau lleol os fyddai diddordeb ganddynt i noddi'r ysgol drwy'r wefan. Byddai hyn wrth gwrs yn cyfrannu tuag at gostau creu y wefan. Drwy gytundeb byddai logo neu enw'r busnes neu gwmni yn cael ei arddangos ar dudalen gartref ein gwefan a fyddai ar gael i'w gwylio yn fyd eang. Cyfle gwych felly i hysbysebu i'r byd.
Os oes diddordeb, neu oes gennych gysylltiadau gyda chwmni neu fusnes lleol a fyddai'n awyddus i noddi'r wefan, yna a fyddech cystal â chysylltu gyda mi, Miss Bethan Thompson neu Mrs Sarah Kelsall cyn Hydref y 11eg.

Parcio

Er mai anodd iawn yw sefyllfa parcio yn yr ysgol, yn arbennig ar ddiwedd y diwrnod ysgol, gofynnwn yn garedig i chi wneud pob ymdrech i barhau i barchu'r rheolau parcio sydd yn bodoli, gan ddefnyddio synnwyr cyffredin os gwelwch yn dda drwy osgoi parcio mewn mannau amhriodol ac anghyfleus. Gofynnwn i chi hefyd i barchu cymdogion yr ysgol yn Glanrafon drwy beidio â pharcio ar draws mynedfeydd y cartrefi.

Prif ddisgyblion

Hoffwn longyfarch ein prif ddisgyblion newydd ar gyfer 2017-18. Yn dilyn pleidlais gan y disgyblion dewiswyd Rhodd Jones a Morgan Jones, y ddau o flwyddyn 6, fel prif ddisgyblion am y flwyddyn hon. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Clwb Garddio

Bydd y clwb garddio yn cyfarfod ar fore Sadwrn Hydref y 7fed o dan arweiniad Mr Hywel Dodd. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau tuag at y gwaith e.e. bylbiau , planhigion, compost. Mae croeso cynnes i rieni/gofalwyr neu berthnasau i ymuno ar y bore. Anelir i gychwyn am 9.30 y.b.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones
Pennaeth

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

29.9.17

Dear Parents/Carers,

School Website

We are currently in the process of setting up a new website for the school. We are eager to involve local business as part of the process, and are eager to ask any local companies or businesses to sponsor the school website. Through agreement a company name or logo would be displayed on the welcome page of the website which would be an excellent opportunity to advertise to the world. If you are interested, or if you have any links with any company or business which may be interested, then please contact myself, Miss Bethan Thompson or Mrs Sarah Kelsall in school, before October 11th.

Parking

The parking situation in school can be particularly difficult, especially during the end of the school day. I would like to ask you to make every effort to respect the existing school parking rules and use common sense in an effort to avoid parking in inconvenient areas. I also ask for you to respect our neighbours in Glanrafon and avoid parking across drives and exits/entry areas.

Head girl / boy

I would like to congratulate our new head boy and head girl for 2017-18. Following a pupil vote, Rhodd Jones and Morgan Jones, both from year 6, were chosen as head girl and head boy for this year. Congratulations to both.

Gardening Club

The gardening club will be meeting on Saturday morning October 7th under the guidance of Mr Hywel Dodd. There is a warm welcome to parents, carers, relatives who wish to help. We would appreciate and be very grateful for any contributions towards the work e.g. bulbs, plants, compost. We aim to start at 9.30 am.

Yours sincerely,

Rhodri Jones
Headteacher